Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO: ADOLYGIAD POLISI - ANGHENION TAI POBL HYN

Cyflwyniad byr i Dai Gwarchod ac i Dai Gwarchod a Gofal yn y DU. Papur gan Nigel Appleton

Er mwyn i ni fedru deall gwreiddiau'r math hwn o lety a gofal, mae angen i ni ystyried sut y mae tai gwarchod wedi datblygu yn y DU. Dechreuodd y model a adwaenir heddiw fel tai gwarchod confensiynol ddod i'r amlwg yn fuan ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Cymharol araf fu'r twf yn ystod y 1950au, ac erbyn 1960, roedd tua 28,000 o bobl yn byw mewn tai gwarchod. Yr awdurdodau lleol, gan amlaf, oedd yn darparu'r math hwn o lety, mewn fflatiau ac mewn byngalos hunangynhwysol.

Y flaenoriaeth uchaf o ran polisi tai ar ôl y rhyfel oedd clirio tai a oedd wedi'u difrodi neu glirio tai anaddas, a mynd ati i adeiladu cartrefi ar gyfer teuluoedd. Erbyn 1960, roedd ymwybyddiaeth gynyddol am y diffyg cydbwysedd yn y rhaglenni a oedd ohoni, a rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddarparu cartrefi ar gyfer pobl hyn. Roedd bellach yn bolisi swyddogol gan y llywodraeth i annog adrannau tai i adeiladu llety a oedd hanner ffordd rhwng anheddau hunangynhwysol a hosteli a oedd yn darparu gofal. (Bwletin dylunio gan y Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol (1958)). Roedd y canllawiau dylunio - llety ar gyfer warden, system larwm a lolfa at ddefnydd pawb - yn adlewyrchu'r cysyniad hwn o ddarpariaeth hanner a hanner.

Y canllawiau hyn a sefydlodd y patrwm ar gyfer y deng mlynedd ar hugain nesaf. Mae Fletcher yn nodi bod dwy elfen sylfaenol i'r patrwm hwn. Yn gyntaf, roedd yn awgrymu model o dai sy'n cyfuno llety hunangynhwysol â chyfleusterau cyffredin. Yn ail, roedd yn argymell model penodol o ofal yn y gymuned a fyddai'n sicrhau bod pobl yn symud ar hyd continwwm o ddarpariaeth adeiledig wrth i'w hanghenion o ran gofal gynyddu. Mae'r rhagdybiaeth gyntaf hon yn dal i ddylanwadu ar sut yr eir ati i ddylunio'r rhan fwyaf o gynlluniau o'r fath, gan gynnwys y rheini sy'n rhai gwarchod a gofal. Mae rhai o'r bobl hynny sy'n hyrwyddo tai gwarchod a gofal, gan gynnwys Fletcher ei hun yn ei adroddiad polisi ym 1991, yn herio'r ail elfen. Drwy gynnig mwy o gyfleusterau a gwasanaethau yn y model confensiynol o dai gwarchod, dadleuir y gellir cynnig mwy a mwy o gymorth i bobl yn yr un man, heb iddynt orfod symud o'r naill gartref i'r llall wrth iddynt deithio ar hyd y continwwm gofal.

Mewn canllawiau pellach yn y cylchlythyr ar y cyd gan y Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol a'r Weinyddiaeth Iechyd ym 1961, cyflwynwyd y syniad o 'boblogaeth gytbwys' o denantiaid. Sail y syniad yw'r rhagdybiaeth bod pobl iach mewn unrhyw gynllun yn helpu'r rheini sy'n fwy bregus eu hiechyd, ac na ddylai holl anghenion y tenantiaid o ran gofal fod yn fwy nag y gall y gwasanaeth wardeniaid ymdopi â hwy. Mae'r syniad hwn wedi'i herio dro ar ôl tro, yn fwyaf amlwg gan Butler. Ei ddadl ef oedd bod y

syniad hwn yn sylfaenol anghyson â'r cysyniad o dai gwarchod. Os oedd tai gwarchod i fod yn fath o ddarpariaeth a oedd yn cynnig rhywbeth ychwanegol i'r bobl hynny yr oedd angen mwy o ofal arnynt, dim ond i'r rheini a oedd â'r lefel briodol o angen y gellid eu dyrannu. Drwy ddyrannu tai o'r fath i bobl ag anghenion sylweddol, ni fyddai modd cynnal rôl y warden yn y mathau o dai gwarchod a oedd ar gael ddechrau'r 1980au. Pe bai pobl nad oedd mewn cymaint o angen yn cael eu cynnwys mewn cynllun er mwyn sicrhau cydbwysedd, nid oedd hynny'n ffordd briodol o ddefnyddio arian cyhoeddus. Cawn weld y ddadl hon eto pan eir ati i ystyried nodweddion y bobl hynny y dyrennir iddynt Dai Gwarchod a Gofal.

Gan ddadlau o safbwynt cwbl wahanol: sef bod cymaint o alw ymhlith y bobl hynny ag anghenion sylweddol mai dim ond darparwr anghyfrifol a allai ddyrannu'r lleoedd a oedd ar gael i bobl nad oedd eu hanghenion mor ddwys, argymhellodd Fletcher y dylid rhoi'r gorau i'r syniad o "gymuned gytbwys". Mewn gwaith mwy diweddar ar dai gwarchod yn gyffredinol, ac ar rôl y warden yn benodol, cymerir yn ganiataol bod y cysyniad hwn o gymuned gytbwys wedi'i wrthod. Felly, gall Hasler a Page gymryd mai poblogaeth o denantiaid mwy dibynnol yw'r man cychwyn ar gyfer diffinio rôl newydd wardeniaid, h.y. nid cynnig gofal ymarferol mo'u swyddogaeth, ond yn hytrach bod yn un o'r partneriaid proffesiynol yn y system ddyrannu, asesu a gofalu.

Darparwyd dau o gonglfeini'r eirfa sy'n ymdrin â thai gwarchod yng nghylchlythyr 82/69 y Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol, ac ynddo ef hefyd y gosodwyd y seiliau ar gyfer y twf mawr yn y ddarpariaeth yn ystod y 1970au. Yn y cylchlythyr hwnnw, gwahaniaethwyd rhwng cynlluniau Categori 1 ar gyfer pobl oedrannus mwy egnïol, a chynlluniau Categori 2 ar gyfer y llai egnïol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn dylanwadu hyd heddiw ar y broses ddylunio ac ar yr iaith a ddefnyddir. Grwpiau o dai hunangynhwysol wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer pobl oedrannus oedd cynlluniau Categori 1. Roedd cynlluniau Categori 2 yn cynnwys cyfleusterau cyffredin, llety a swyddfa ar gyfer warden, system larwm, ystafell i westeion, cyfleusterau golchi dillad ac ystafell gyffredin. Dyma'r ddarpariaeth yr arferwyd cyfeirio ati fel "tai gwarchod confensiynol".

Wrth i denantiaid heneiddio, ac wrth i'r oed ar gyfer derbyn pobl i gynlluniau tai gwarchod am y tro cyntaf godi, dechreuodd y darparwyr sylweddoli na ellid bodloni anghenion eu tenantiaid mewn cynlluniau tai gwarchod confensiynol â gwasanaeth warden o'r math traddodiadol. Er y byddai modd ymdopi ag un neu ddau o denantiaid bregus eu hiechyd am gyfnodau hir, neu ymdopi ag ychydig mwy ohonynt am gyfnodau byr drwy wasanaeth warden o'r math traddodiadol a thrwy denantiaid yn cynorthwyo'i gilydd, byddai sefyllfa lle byddai angen gwasanaethau gofal ar gyfran sylweddol o'r tenantiaid yn peri anawsterau. Yn fynych, nid oedd y gofal, i bob golwg, yn cael ei gydgysylltu. Yn wir, roedd bron yn digwydd ar hap, a'r warden wedyn yn gorfod llenwi'r bylchau. O ddechrau'r 1980au ymlaen, dechreuodd rhai darparwyr ddatblygu cynlluniau lle'r aed ati i drafod â'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cytuno ar drefniadau gofal mwy cydlynus, a chyflwynwyd rhai cyfleusterau ychwanegol yn y cynlluniau hynny. Arbrofodd rhai drwy ddarparu prydau, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt am ddarparu cyfleusterau lle roedd modd cynnig cymorth i bobl gael bath, ynghyd ag ystafelloedd triniaethau a chyfleusterau arbenigol eraill. Rhoddwyd amryfal deitlau i'r cynlluniau hyn, gan gynnwys rwdl-mi-ri o deitl, sef "categori dau a hanner", a oedd yn golygu eu bod tua hanner ffordd rhwng tai gwarchod confensiynol, categori dau, a chartrefi gofal preswyl, Rhan Tri. Y cynlluniau hyn, rhai wedi'u hadeiladu o'r newydd a rhai wedi'u creu drwy addasu cynlluniau tai gwarchod a oedd yn

bodoli eisoes, oedd yr enghreifftiau cyntaf o Dai Gwarchod a Gofal.

Datblygiadau "Gwarchod a Gofal" Cynnar

Wrth i'r angen i ddiwallu anghenion poblogaeth hyn a bregus ei hiechyd gael lle mwy blaenllaw ar yr agenda gyhoeddus, ac wrth anelu at ddarparu lleoliadau llai sefydliadol, dechreuodd Tai Gwarchod a Gofal ddenu sylw ddechrau'r 1990au.

Dangosodd Tinker yn ei hymchwil ar gyfer Adran yr Amgylchedd ym 1989 fod amryfal fathau o ddarpariaeth yn dechrau dod i'r amlwg. Gwelodd hi fod cynlluniau Tai Gwarchod a Gofal yn amrywio'n fawr o ran eu dyluniad, yn enwedig o ran y math o lety a ddarparwyd ar gyfer y tenantiaid unigol. Gallai fod yn fflat, yn ystafell fyw a chysgu neu'n ystafell wely. Roedd rhai o'r cynlluniau hyn yn cael eu cofrestru gyda'r awdurdod lleol o dan Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984 fel cartrefi gofal preswyl a oedd yn darparu pob pryd, ynghyd â gofal personol ymarferol. Roedd eraill yn cynnig prydau ond gofal mwy tebyg i 'ofal yn y cartref'. Roedd rhai'n darparu'r holl staff gofal eu hunain, ac eraill yn defnyddio staff a oedd yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol i ddarparu'r gofal o dan y cynllun.

Gydol y 1990au, roedd canfyddiad cyffredinol ledled y wlad bron fod digon o dai gwarchod confensiynol ar gael ond bod angen ychwanegu at y stoc Tai Gwarchod a Gofal. Dylanwadodd hyn ar benderfyniadau ar y lefel genedlaethol o ran creu polisi a buddsoddi. Cadarnhawyd hyn yn astudiaeth McCafferty ar gyfer Adran yr Amgylchedd ym 1994 a ddaeth i'r casgliad bod yna angen sylweddol heb ei ddiwallu am dai gwarchod a gofal, a'i bod yn bosibl bod yna ormod o dai gwarchod cyffredin.

Tai gwarchod confensiynol "anodd eu rhoi ar osod"

Wrth i dai gwarchod a gofal ddod yn fwyfwy poblogaidd, daeth darparwyr yn fwyfwy ymwybodol bod anawsterau'n dechrau dod i'r amlwg ym maes tai gwarchod. Ar ôl dau ddegawd lle bu mwy o alw nag o ddarpariaeth, dechreuwyd gweld llai o alw am rai o'r cynlluniau. Roedd y rhesymau dros y gostyngiad yn y galw yn gwbl amlwg; nid oedd llawer o'r cynlluniau'n ddeniadol erbyn hynny, roeddent yn hen, mewn ardaloedd lle roedd siopau lleol a chyfleusterau eraill wedi diflannu a lle nad oedd trafnidiaeth o fewn cyrraedd hwylus. Ystafelloedd byw a chysgu bach a ddarparwyd mewn llawer o'r cynlluniau hyn. Mewn rhai ohonynt, roedd rhaid rhannu ystafelloedd ymolchi, a hyd yn oed y toiledau. Nid oedd lifftiau mewn nifer ohonynt, yn enwedig y rhai a oedd yn eiddo i'r awdurdodau lleol. At ei gilydd, ni fyddent yn addas i ddarpar denantiaid gan fod pobl, erbyn hynny, yn ystyried symud i dai gwarchod yn hwyrach yn ystod eu bywydau nag y byddent wedi'i wneud yn ystod y 1960au a'r 1970au.

Cafodd dadansoddiad cychwynnol gan Miscallef ei gadarnhau gan Tinker ac eraill yn eu hastudiaeth o dai gwarchod anodd eu rhoi ar osod. Ymhlith y strategaethau y gallai darparwyr tai gwarchod fanteisio arnynt er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon oedd cyflwyno gwasanaethau gofal a dyrannu fflatiau i bobl hyn bregus eu hiechyd. Yn ei "Appraisal Guide for Sheltered Housing" mae'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol yn awgrymu y gallai gwella'r gwasanaethau, er enghraiift, drwy ddarparu prydau neu gymorth i gael bath,. fod yn rhan o strategaeth i sicrhau cynnydd yn y niferoedd a fyddai'n cael eu rhoi

ar osod. Byddai uwchraddio'r cynllun drwy ddarparu rampiau, canllawiau a chanllawiau cydio, dolenni a thapiau priodol, awgrymir, yn gamau mwy tpendant. Ymlith y newidiadau mwy sylweddol fyddai gosod cawodydd.

Ond mae peryglon yn hyn o beth, yn enwedig o ganolbwyntio'n bennaf ar newid yr amgylchedd ffisegol, neu hyd yn oed ar ddarparu gwasanaethau ychwanegol, heb bwyso a mesur diben y cynllun ac anghenion y bobl y bwriedir iddo'u gwasanaethu. Fel y dywed Fletcher, yn briodol ddigon: mae canolbwyntio ar nodweddion yn hytrach nag ar ddiben yn gallu cuddio diffyg eglurder ynghylch ar gyfer pwy y bwriedir tai gwarchod ac ynghylch anghenion pwy y maent yn ceisio'u diwallu.

Mae'r farn hon yn un a gymeradwyir gan y Comisiwn Archwilio, sy'n cyfeirio at batrwm presennol tai gwarchod fel un hanesyddol nad yw'n gysylltiedig â lefelau amlwg o angen na galw. Drwy ddadansoddi'r profiadau a gafwyd mewn saith a deugain o awdurdodau lleol, daeth y Comisiwn Archwilio i'r casgliad nad oedd gan unrhyw un o'r awdurdodau yr ymwelwyd â hwy yn ystod y gwaith maes unrhyw weledigaeth glir am swyddogaeth tai gwarchod yn y dyfodol. Prin iawn yw'r dystiolaeth o gydweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol ac â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn cynnwys tai gwarchod mewn strategaethau ehangach i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl hyn. Gan eu bod yn gweithio ar wahân i broses asesu'r gwasanaethau cymdeithasol, nid yw'r awdurdodau tai'n gallu nodi anghenion trigolion hyn ar draws pob math o ddeiliadaethau ac yna mynd ati i ddatblygu ac i ddyrannu tai gwarchod yn unol â hynny.

Serch hynny, dechreuodd tai gwarchod yn gyffredinol, a ffurfiau mwy datblygedig ar y ddarpariaeth honno, megis Tai Gwarchod a Gofal yn benodol, ennill eu plwyf mewn patrymau darparu at y dyfodol o ran llety ar gyfer pobl hyn bregus eu hiechyd, ac o ran darparu gofal ar eu cyfer. Mewn canllawiau ar arferion da a gyhoeddwyd ym 1997, mae'r Adran Iechyd yn rhoi enghreifftiau o dai gwarchod lle roedd adran dai am wella'r ffordd yr oedd yn defnyddio stoc gwarchod, ac adran gwasanaethau cymdeithasol am ddatblygu dewis arall yn lle darpariaeth gofal preswyl. Arweiniodd hyn at adnewyddu ac uwchraddio bloc llety gwarchod er mwyn darparu llety ar gyfer pobl hyn bregus eu hiechyd. Dywedwyd bod cyswllt rheolaidd rhwng y warden preswyl a gweithwyr gofal yr adran gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig arbenigol, megis *Hanover and Housing 21*, wedi hyrwyddo ffyrdd penodol o weithredu ym maes Tai Gwarchod a Gofal ac wedi ategu hyn ag amryfal gyhoeddiadau. Ynddynt, nodwyd meini prawf dylunio ar gyfer adeiladau, systemau rheoli a gofal, ac ymchwil i brofiad yr amryfal randdeiliaid wrth i gynlluniau newydd gael eu datblygu.

Ailwampio tai gwarchod neu gynnig darpariaeth yn lle gofal preswyl?

O safbwynt arall, mae Martin Shreeve, cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Dinesig Wolverhampton a chyn gadeirydd Pwyllgor Pobl Hyn Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi argymell y dylai'r system gofal preswyl gael ei hailwampio'n llwyr drwy ddatblygu cynlluniau Tai Gwarchod a Gofal pwrpasol. Bellach, ar ôl pedair blynedd, mae Wolverhampton wedi llwyddo i greu darpariaeth o'r fath ac i newid y defnydd a wnaed o nifer bach o

adeiladau gofal preswyl er mwyn creu canolfannau adnoddau sy'n darparu cymorth yn y gymuned, gwelyau ailsefydlu, gofal seibiant a mathau eraill o ddarpariaeth arbenigol.

Mae'r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Hirdymor hefyd yn cefnogi strategaeth lle darperir Tai Gwarchod a Gofal yn lle cartrefi gofal preswyl. Sail eu cefnogaeth hwy i Dai Gwarchod a Gofal yw'r canfyddiad eu bod yn fwy cost effeithiol ac yn cynnig canlyniadau o ansawdd uwch i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r deunydd ymchwil a ddarperir i gefnogi canfyddiadau ac argymhellion y Comisiwn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth amrywiol a gaed yn y gorffennol ac a geir ar hyn o bryd, ac nid yw'n gwneud unrhyw ymgais ddifrifiol i wahaniaethu rhyngddynt.

Sail rhai dros bledio achos Tai Gwarchod a Gofal yw'r awydd i sefydlu diwylliant newydd a mwy priodol ar gyfer darparu llety a gofal. Yn ei Ragair i adroddiad Joanna Bartholomeou ar brofiadau pobl sy'n byw mewn llety *extraCare Hanover Housing*, dywed Jef Smith, cyn Reolwr Cyffredinol Counsel and Care:

> Ni all ffurfiau ar ddarpariaeth breswyl ar gyfer pobl hyn sy'n seiliedig ar fodelau iechyd a lles cymdeithasol – sef cartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio, unedau arhosiad hir, yr holl gyfleusterau bron lle cynigir gofal mewn grwpiau - osgoi cyfeirio'n ôl at yr ysbyty a'r tloty o ran y ffordd y maent yn cael eu rhedeg. Ni waeth pa mor haelfrydig oedd y dulliau rheoli yn y sefydliadau hyn, problemau i'w datrys oedd pobl yn eu hanfod; roedd y bobl a drigai yno yn westeion anfoddog ar diriogaeth rhywun arall - ac yn achos ysbytai, dyna yw'r sefyllfa o hyd. Smith yn Bartholomeou.

Mae hyn yn dangos yn glir na ddylai cynlluniau Tai Gwarchod a Gofal fod yn rhywbeth hanner fordd rhwng tai gwarchod confensiynol a gofal preswyl. Dylent ddisodli'r cartrefi hynny gan fod y ddarpariaeth a gynigir ynddynt yn fwy priodol. Mae hyn yn ein tywys at ddiben Tai Gwarchod a Gofal: ai dim ond ychwanegu at yr ystod o ddewisiadau sydd ar gael yw eu diben, gan lenwi bwlch yn y continwwm, neu a ydynt yn cynnig dewis arall, a fydd yn golygu na fydd angen rhan sylweddol o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ofal preswyl ar hyn o bryd? Bydd yr ateb i'r cwestiwn hwn yn ddylanwadol iawn o ran penderfynu ar y diffiniad o Dai Gwarchod a Gofal, ar nodweddion y tenantiaid ac ar ba mor gost effeithiol yw'r trefniant hwn o'i gymharu â'r dewisiadau eraill.

Mae agendâu gwahanol yn esgor ar fodelau gwahanol

Wrth adrodd yr hanes hwn ynghylch datblygiad modelau newydd sy'n seiliedig ar dai gwarchod, gwelir nad yw'r rhai sy'n pledio'u hachos yn cychwyn o'r un man. Mae agendâu'r amryfal randdeiliaid yn groes i'w gilydd, p'un ai a nodir hynny ai peidio. Awgrymir bod darparu Tai Gwarchod a Gofal yn ffordd i fynd i'r afael â'r holl agendâu hyn, ond efallai mai un o'r rhesymau dros hynny yw bod y term yn golygu rhywbeth gwahanol i randdeiliaid gwahanol.

Prif amcan adrannau gwasanaethau cymdeithasol, a sylwedyddion fel Smith a Shreeve, yw sefydlu cyd-destun lle gellir mynegi nifer o werthoedd allweddol. Ystyrir bod y profiadau a geir mewn gofal preswyl

neu'r bylchau o ran y gofal a roddir i'r rheini sy'n dal i fyw mewn tai cyffredinol yn tanseilio'r gwerthoedd hynny. Maent yn helpu i ddiffinio ffordd newydd o fywyd ar gyfer pobl oedrannus lle'u hanogir i barhau'n annibynnol ac i fanteisio ar y ddarpariaeth dysgu gydol oes, lle darperir sicrwydd iddynt, a lle rhoddir y gallu iddynt ymrymuso a chwarae rhan lawn yn eu cymunedau. Yn nhyb rhai, mae'r model Tai Gwarchod a Gofal yn ateb dau gwestiwn: sut i symud ymlaen o gyfyngiadau gofal preswyl a gwneud synnwyr, o'r diwedd, o dai gwarchod.

Mae eraill yn y gwasanaethau cymdeithasol, neu hyd yn oed mewn rhai achosion yr un bobl tra'n ymgymryd â chyfrifoldebau gwahanol, yn canolbwyntio ar ba mor cost effeithiol yw'r ateb hwn. A yw Tai Gwarchod a Gofal yn cynnig gwerth am arian o'u cymharu â darparu llety a gofal i bobl hyn yn eu cartrefi eu hunain, mewn tai gwarchod confensiynol neu mewn gofal preswyl? Mae'r ateb i'r cwestiwn hwnnw'n dibynnu'n llwyr ar ddiffinio'r grwp cleientiaid y bwriedir y ddarpariaeth ar ei gyfer. Os pobl hyn nad yw eu hanghenion gofal, o'u rhoi at ei gilydd, yn cyfateb i'r ddarpariaeth sy'n rhan o'r trefniant, sy'n byw mewn Tai Gwarchod a Gofal, yna mae'n anodd eu cyfiawnhau ar sail cost. Dichon y bydd cynlluniau sy'n deillio o ddymuniad i ddiogelu neu i wella cynllun tai gwarchod confensiynol yn cael trafferth dangos eu bod yn rhoi gwerth am arian. Bydd darpariaeth newydd sy'n cynnig llety a gofal i bobl a oedd gynt yn cael gofal preswyl, neu i bobl a fyddai, fel arall, yn cael gofal preswyl, yn ei chael yn haws cyrraedd y lefelau o ran angen a fydd yn cyfiawnhau'r lefelau gofal sy'n gysylltiedig â Thai Gwarchod a Gofal.

Drwy arddel egwyddorion Gwerth Gorau ym maes Tai Gwarchod a Gofal, eir ati, i ryw raddau, i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng y ddwy ffordd hyn o weithredu, gan edrych ar brofion ariannol syml ynghylch gwerth ond hefyd ar ansawdd y ddarpariaeth ac i ba raddau y mae'n adlewyrchu dyheadau a chyfraniadau defnyddwyr y gwasanaeth.

Trydedd ffordd o fynd ati yw bod darparwyr tai'n ceisio dilyn yr argymhellion polisi a'r argymhellion mewn llenyddiaeth sy'n eu hannog i sicrhau bod y stoc presennol yn parhau'n hyfyw drwy ei droi'n Dai Gwarchod a Gofal. Dichon mai bwriad hyn yw galluogi cyfran uwch o denantiaid hyn i aros yn eu cartrefi presennol, ynghyd â darparu llety yn y gymuned i grwp mwy dibynnol. Y broblem yw mai'r stoc hynaf a lleiaf addas sy'n peri anhawster yn aml o ran ei roi ar osod, a'r stoc hwnnw, yn aml, sy'n cael ei addasu. Mae'n demtasiwn gwneud cyn lleied â phosibl o waith ar addasu'r adeilad, gan fynd ati wedyn i'w ddisgrifio fel Tai Gwarchod a Gofal pwrpasol. Enghraifft o hyn fyddai cynllun Tai Gwarchod yn gweithredu fel cynllun Tai Gwarchod a Gofal am fwy na chwe blynedd er nad oedd ganddo lifft na rhaglen ar gyfer addasu'r ystafelloedd ymolchi yn y fflatiau drwy osod cawodydd ynddynt yn lle baddonau.

Nid amau cymhellion yr amryfal randdeiliaid nac awgrymu nad oes gwerth i'r canlyniadau a geir yw awgrymu bod eu hagendâu'n wahanol. Gall agendâu gwahanol arwain at ganlyniadau sy'n amrywio'n fawr. Er enghraifft, efallai y byddai'n haws rhoi cynllun tai gwarchod confensiynol ar osod drwy wneud mân welliannau i'r adeilad, ac yn y tymor byr, byddai hyn yn golygu na fyddai'n rhaid i rai o'r tenantiaid symud i leoliad sefydliadol. Ni fyddai rhaglen sy'n cynnig cyn lleied o newidiadau yn bodloni agenda fwy uchelgeisiol y rheini sydd am greu amgylchedd a fyddai'n galluogi pobl hyn nid yn unig i fod yn annibynnol ond a fyddai hefyd yn cyfoethogi ansawdd eu bywydau ac yn cynnig cyfleoedd iddynt o ran

twf personol. Mae defnyddio'r un termau i ddisgrifio'r canlyniadau sydd eu hangen i gyflawni agendâu sydd mor wahanol i'w gilydd yn peri dryswch a rhwystredigaeth i bawb.

Enghreifftiau eraill o dai Gwarchod a Gofal neu dai Gofal Ychwanegol

Yn gyffredinol, diffinnir Tai Gwarchod a Gofal fel tai sy'n cyfuno cyfleusterau a gwasanaethau. I raddau gwahanol, mae'r holl fodelau gwahanol a gynigir gan y prif ddarparwyr yn bodloni'r gofynion hyn.

Yn ei astudiaeth o naw cynllun Tai Gwarchod a Gofal yn Peterborough ac yn Swydd Gaergrawnt, mae Baker yn nodi naw nodwedd sy'n diffinio cynlluniau o'r fath, sef :

- Llety hunangynhaliol
- Cyfarpar ar gyfer rhoi gofal
- Staff gofal, sydd, yn fwy na thebyg, ar gael 24 awr y dydd
- Arlwyo
- Cyfleusterau cymunedol
- Gweithgareddau cymdeithasol a chyfleusterau i addoli
- Darparu lefel briodol o ofal i'r tenantiaid
- Cymorth gyda gwaith ty a siopa
- Rhai gweithgareddau a gwasanaethau ehangach

Y broblem gyda'r rhestr hon yw fod pob un o'r elfennau, ar wahân i gyfarpar ar gyfer gofal a staff gofal, yn enwedig os ydynt ar gael 24 awr y dydd, mewn tai gwarchod confensiynol, naill ai drwy eu darparwr tai neu drwy'r gwasanaethau cymorth cymunedol a ddarperir gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Mae Trotter a Phillips yn cynnig rhestr llawer manylach:

- Fflatiau hunangynhaliol sydd â chyfleusterau llawn yn y gegin a'r ystafell ymolchi, ac sydd, fel arfer, yn bodloni safonau o ran symudedd a defnyddio cadeiriau olwyn
- Cyfleusterau ar gyfer y staff, gan gynnwys swyddfa ac ystafelloedd gwely
- Mannau di-rwystr sy'n hawdd mynd atynt ac sy'n helpu symudedd, lle ceir digon o gyfarpar, lifftiau i bob llawr neu i gynifer o loriau â phosibl
- Amrywiaeth o fannau sy'n cynnig gwasanaethau megis trin gwallt, golchi dillad a thrin traed ac ati
- Mannau cymunedol gan gynnwys ystafelloedd dydd, cyfleusterau arlwyo a bwyta, lle gellir darparu prydau cymunedol neu wasanaethau caffi
- Cyfleusterau i ymwelwyr
- Cysylltiadau da â'r ardal leol
- Staff ar y safle sy'n gyfrifol am yr adeilad ac am reoli a chydgysylltu'r gwasanaethau gofal a chymorth
- Preifatrwydd i breswylwyr, ynghyd â gwasanaethau i'r ardal leol.

Yn ôl y Safonau ar gyfer Datblygu Cynlluniau a luniwyd gan y Corfforaethau Tai (1998), mae cyfleusterau ar gyfer gofalwyr, sef ystafell staff, toiledau, ystafell newid ac ystafell wely yn nodweddion

hanfodol. Byddai Grwp Tai Hanover yn ystyried hefyd fod darparu siop, sydd, yn gyffredinol, ar agor am rai oriau penodol ac sy'n cael ei chyflenwi gan archfarchnad leol, yn un o'r elfennau allweddol. Mae hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw darparu man addas ar gyfer storio a thrydanu sgwteri palmant. Byddai *Anchor Housing* yn awgrymu bod cyfleusterau digonol ar gyfer golchi dillad yn y fflat yn golygu nad oes angen golchdy ar wahân, ac mae'n amau a oes angen siop. Byddai *Tai Extracare* yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleusterau cymdeithasol, addysgiadol a chyfleusterau hamdden, gan nodi y gallai pobl hyn sy'n byw yn y gymuned hefyd ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.

At ei gilydd, yn y diffiniadau o'r swyddogaethau y mae'r gwahaniaethau, yn benodol swyddogaeth rheolwr y cynllun, a'r trefniadau ar gyfer darparu a rheoli gwasanaethau. Y model y mae Ymddiriedolaeth Elusennol *Extracare* ac *Anchor Trust* yn ei argymell yw un lle mae'r swyddogaethau'n integredig, a lle mai'r un person sy'n rhoi cymorth i denant ag amryfal anghenion: gofal personol, gorchwylion glanhau a gwaith ty, cyswllt cymdeithasol ac ati. Y gred yw fod hyn yn agosach at batrwm "bywyd naturiol" lle byddai gofalwr anffurfiol yn rhoi cymorth cydgysylltiedig ac yn ysbarduno diddordeb y tenant o ran ei fywyd personol, domestig a chymdeithasol.

Mae'r ddau ddarparwr hyn hefyd yn ffafrio integreiddio'r broses o reoli gwasanaethau, yn y gred y gellid arbed costau mewn ffordd na fyddai'n bosibl o dan drefniadau erail. Felly, Rheolwr y cynllun fyddai'n cyflawni'r swyddogaethau rheoli tai a rheoli gofal. Mae hyn yn awgrymu hefyd fod rhan ganddo yn y broses o asesu anghenion a pharatoi a goruchwylio cynlluniau gofal, a byddwn yn cyfeirio at hyn eto isod.

Mae Grwp Hanover o blaid model lle mai hwy sy'n darparu ac yn rheoli'r adeiladau a'r gwasanaethau tai gan roi gwasanaethau gofal, glanhau ac arlwyo ar gontract i asiantaethau allanol. Maent o'r farn fod hyn yn caniatáu iddynt fanteisio ar yr arbenigeddau priodol, ac yn rhoi hyblygrwydd wrth sicrhau gwerth am arian. Mae hefyd yn diogelu swyddogaeth y Rheolwr fel rhywun sy'n eiriol dros y tenantiaid pan fo angen trafod â darparwyr y gwasanaethau eraill.

Mae swyddogaeth yr uwch swyddog ar y safle yn un hanfodol. P'un a yw'r trefniadau ffurfiol yn cydnabod hynny ai peidio, maent i gyd yn dylanwadu i ryw raddau ar y ffordd y caiff gofal ei ddarparu i'r tenantiaid. Yn yr arferion sy'n dod i'r amlwg, caniateir i'r rheolwr, ar ôl iddo gael hyfforddiant priodol, gymryd rhan yn y broses o asesu a fyddai'n briodol i rywun gael tenantiaeth ac o baratoi cynllun gofal cychwynnol. Ar ôl hynny, byddai'r Rheolwr yn cydgysylltu'r amryfal ffynonellau gwybodaeth ynghylch y patrymau o angen sy'n dod i'r amlwg ac yn addasu'r cynllun gofal yn unol â hynny, ar ôl i'r Rheolwr Gofal gynnal archwiliad o safbwynt buddiannau comisiynwyr y gwasanaethau. Rhaid i anghenion yr unigolyn gael eu diwallu o fewn y gyllideb ar gyfer gweithgareddau cyffredinol y cynllun. Mewn trefniant o'r fath, y Rheolwr yw'r unig un sy'n atebol i'r sawl sy'n ariannu/comisiynu ac i'r tenant. Gellir dadlau bod trefniant o'r fath yn gymhelliad i orliwio lefelau o angen er mwyn cynnal incwm, ond mae profiadau a gafodd eraill yn awgrymu bod trefniant o'r fath, o'i reoli'n ofalus, yn ddigon hyblyg i sicrhau canlyniadau cost effeithiol o ansawdd uchel.

Gwahaniaethu rhwng Tai Gwarchod a Gofal a Thai Gwarchod

Ar ben isaf y continwwm, mae'n bwysig cadarnhau'r gwahaniaethau rhwng tai Gwarchod a Gofal a thai Gwarchod confensiynol Categori Dau. Mae swyddogaeth newydd y warden a'r amryfal wasanaethau ychwanegol y mae eu hangen ar boblogaeth o denantiaid sy'n heneiddio yn cymhlethu'r sefyllfa hon. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cyflwyno trydydd categori, sef "Tai Gwarchod a Mwy". Cyfeirio y mae'r categori hwn at gynllun lle bydd swyddogaeth y warden wedi'i datblygu'n unol â'r egwyddorion a amlinellir gan Page ac eraill, a lle bydd tîm gofal penodedig wedi'i neilltuo ar gyfer y cynllun a lle bydd rhai cyfleusterau arbenigol ychwanegol yn cael eu darparu. Fodd bynnag, mae'n wahanol i gynllun Tai Gwarchod a Gofal am nad yw'r adeilad wedi cael ei asesu'n drylwyr a'i addasu er mwyn gwella'r cynllun gwreiddiol. Efallai na fydd diwylliant a chyfleusterau'r cynllun yn ddigonol o ran yr hyn sydd ei angen i hyrwyddo Dysgu Gydol Oes, cymorth gan gyfoedion a ffyrdd o gyfoethogi bywydau'r pobl hyn, sef nodweddion gorau Tai Gwarchod a Gofal. Mae'n bosibl y bydd y trefniadau ar gyfer darparu gofal wedi'u gwella er mwyn lleihau gwastraff ac er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hyblyg, ond efallai na fyddant yn gwbl hyblyg o ran darparu gwasanaethau bedair awr ar hugain y dydd bob diwrnod o'r flwyddyn.

Yn bellach ar hyd y continwwm, mae'r un mor bwysig sicrhau bod modd gwahaniaethu rhwng Tai Gwarchod a Gofal a chartref gofal preswyl o ansawdd uchel. Byddai rhai'n dadlau bod cartrefu nifer mawr o bobl hyn bregus eu hiechyd mewn cynllun, ni waeth beth yw ei amgylchedd ffisegol a'r athroniaeth y mae'n ei harddel, yn meithrin diwylliant ac awyrgylch cartref gofal preswyl. Eu dadl hwy yw fod angen i Dai Gwarchod a Gofal llwyddiannus fod yn gymuned gytbwys sy'n cynnwys pobl sydd â'r math o anghenion gofal na fyddai'n cyfiawnháu darparu gwasanaethau ar eu cyfer o dan amgylchiadau eraill. Rydym eisoes wedi nodi bod y syniad gwreiddiol o "gymuned gytbwys" mewn tai gwarchod wedi'i wrthod bron ddegawd yn ôl. Eto, gallai'r derminoleg beri dryswch gan mai'r hyn a gynigir yw sicrhau cydbwysedd ar lefelau cymedrig uwch o ddibyniaeth. Er hynny, mae i'r syniad na ddylai pobl sy'n byw mewn Tai Gwarchod a Gofal fod ag angen eu gwasanaethau a'u cyfleusterau ar hyn o bryd oblygiadau o ran hyfywedd ariannol a Gwerth Gorau.

Mae maint hefyd yn peri problem. Ym marn rhai darparwyr, bydd angen i'r cynllun ddarparu gofal am fwy na thri chan awr yr wythnos, gan gynnwys yn ystod y nos, er mwyn iddo fod yn hyfyw o ran darparu staff gofal bedair awr ar hugain y dydd bob diwrnod o'r flwyddyn. Ar gyfer cynllun ar raddfa fach, neu ar gyfer un lle nad oes ond nifer fach o unedau wedi'u dynodi'n dai Gwarchod a Gofal, gallai hyn awgrymu na fyddai lefel yr angen, ar gyfartaledd, yn ddigon. Mewn cynllun o ugain uned, er enghraifft, os nad ydydm yn cyfrif saith deg awr o ofal yr wythnos yn ystod y nos, mae hyn yn golygu y bydd angen mwy na awr a hanner o ofal ar bob tenant ar gyfartaledd.

Ceisio diffinio'r cynlluniau

O ystyried yr amryfal fodelau a gynigir gan ddarparwyr, a'r amgylchiadau lleol, dichon nad yw cynnig un diffiniad yn bosibl nac yn ddefnyddiol. Rydym yn cynnig amryfal nodweddion y dylid eu cynnwys. Rydym o'r farn fod rhai ohonynt yn hanfodol ac eraill yn ddymunol neu'n agored i'w trafod ymhellach. Bwriedir ystyried y prif feysydd a ganlyn:

Sail meddiannaeth

Mae gwahaniaeth mawr a sylfaenol rhwng Tai Gwarchod a Gofal a gofal preswyl. Mae'r rhai sy'n meddiannu cynllun Gwarchod a Gofal yn gwneud hynny ar sail tenantiaeth lle mae ganddynt yr hawliau y mae statws tenant yn ei roi iddynt. Nid oes unrhyw fanteision i berson hyn sy'n meddiannu'r llety o dan drefniadau eraill, megis "trwydded i feddiannu". Er y byddai'r darparwr, o bosibl, yn ffafrio trefniant sy'n caniatáu mwy o ryddid iddo ddelio â meddianwyr sy'n peri problemau, efallai yn sgil dirywiad yn eu hiechyd corfforol neu feddyliol, ni fyddai unrhyw fanteision i'r person hyn. Dylid ystyried bod meddiannaeth ar sail tenantiaeth, o fewn fframwaith Deddf Tai 1996, yn un o'r elfennau hanfodol wrth ddiffinio tai Gwarchod a Gofal.

Asesu a dyrannu tai

Yn ei adroddiad ar swyddogaeth tai mewn gofal cymdeithasol, roedd y Comisiwn Archwilio yn cydnabod yr anawsterau a all godi pan nad yw arferion asesu a dyrannu yn cael eu hintegreiddio'n briodol. Awgrymir bod y tensiwn rhwng galwadau rheoli stoc ac anghenion pobl hyn bregus eu iechyd yn anorfod. Yn hytrach na defnyddio tai gwarchod fel un o adnoddau allweddol gofal yn y gymuned, mae rhai cynghorau'n defnyddio'r meini prawf arferol wrth roi llety ar osod – os oes lleoedd gwag mewn unedau gwarchod, cânt eu rhoi ar osod i bobl hyn sy'n aros am le, ni waeth a ydynt yn fregus ai peidio. Gall rhoi pobl hyn iach ac egnïol mewn tai gwarchod fod yn ddewis drud. Os yw hyn yn wir am dai gwarchod confensiynol, mae'n fwy amlwg byth mewn perthynas â Thai Gwarchod a Mwy neu Dai Gwarchod a Gofal.

Mor bell yn ôl â 1991, roedd Fletcher a Gillie yn galw am ddull integredig o asesu a dyrannu tai. Yn y dyfodol, meddent, bydd gallu unrhyw un sy'n darparu tai gwarchod i reoli grwp mwy dibynnol o denantiaid yn dibynnu ar allu'r awdurdod iechyd a'r adran gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau gofal digonol mewn unrhyw gynllun. Mae angen holi, felly, a ddylid rhoi mwy o ran i'r asiantaethau hyn, yn benodol yr adran gwasanaethau cymdeithasol, sef yr asiantaeth sy'n arwain ym maes gofal cymunedol, yn ogystal ag adran dai yr awdurdodau lleol, yn y broses o enwebu, asesu ac efallai o ddethol tenantiaid.

Cynigiodd yr Adran Iechyd ganllawiau tebyg ym 1997 lle dywedwyd bod egwyddorion cynllunio'n cynnwys partneriaeth rhwng yr asiantaethau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau, a'r bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau gofal yn y gymuned a'u gofalwyr. Barnwyd bod angen rhoi blaenoriaeth i ddatblygu dulliau sy'n caniatáu i becyn cydgysylltiedig o wasanaethau ym maes tai, iechyd a gofal cymdeithasol gael ei ddarparu er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn.

Tynnodd y Comisiwn sylw at y perygl y gallai methiant ar ran yr awdurdodau tai a'r gwasanaethau cymdeithasol, o safbwynt y gweithdrefnau asesu a dyrannu, arwain at lefelau amhriodol o uchel o wasanaethau. Dywedir bod perygl y gallai asesu gwael olygu bod pobl yn cael cynnig mwy o wasanaethau nag y mae eu hangen arnynt. "Amnewid ar i fyny" ("upward substitution") yw'r term a welir yn aml am y ffenomen hwn.

Yn ôl yr arferion gorau, dylai asesu a dyrannu tai fod yn broses integredig sy'n rhoi sylw i'r angen am dai ac i ofynion gofal. Dylid cynnal y ddwy ddisgyblaeth asesu mewn ffordd gyfochrog a chytbwys fel bod y ddwy yn cyfrannu at sicrhau canlyniad priodol. Nid yw addasu'r broses o asesu a dyrannu tai drwy roi mwy o bwys ar "ffactorau meddygol" yn enghraifft o'r arferion gorau. Efallai ei bod yn ffordd briodol o ddyrannu tai Gwarchod a Mwy, ond nid yw'n briodol ar gyfer dyrannu Tai Gwarchod a Gofal. Ni all yr angen am ofal fod yn un ymysg amrywiaeth o anghenion llai pwysig sy'n cael eu hystyried fel dangosyddion o'r angen am dai.

Mae'r cysyniad o "ffactorau meddygol" yn un hen ffasiwn ac yn parhau'r arfer o ystyried yr ymatebion i heneiddio o safbwynt meddygol, ac mae hyn wedi arwain at batrymau o ddibyniaeth yn hytrach na phatrymau galluogi o ddarparu gwasanaethau sy'n meithrin gallu pobl. Mae barn y Meddyg Teulu o fudd, ond bydd asesiad gan Reolwr Gofal, Therapydd Galwedigaethol neu Nyrs Gymunedol yr un mor bwysig wrth fynd ati i ddyrannu tai yn briodol.

Yn ôl yr arferion gorau sy'n cael eu harddel, dylai panel dyrannu, sef cynrychiolwyr o'r adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd â'r darparwyr (os nad yr awdurdod tai yw'r darparwr) a rheolwr y cynllun, gyfeirio at asesiadau tai ac asesiadau gofal wrth ddyrannu tai. Ni ddylid dyrannu ar sail yr angen am dai, hyd yn oed lle ceir cefnogaeth feddygol gryf, pan nad yw'r asesiad gofal yn nodi bod anghenion y sawl sy'n gwneud cais am lety yn cyfateb i'r ystod o ofal a ddarperir o dan y cynllun.

Lle y bo modd, dylai rheolwr y cynllun gael hyfforddiant sy'n caniatáu iddo fonitro newidiadau o ran anghenion ac i addasu'r gwasanaethau a ddarperir yn unol â hynny. Efallai y caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd ar y cyd â chynrychiolydd y rhai sy'n comisiynu gofal a'r rhai sy'n darparu gofal, a bydd hefyd yn rhan o weithdrefnau adolygu ac archwlio arferol y rhai sy'n comisiynu gofal. Os Rheolwr Gofal fydd yn adolygu ac yn addasu'r ddarpariaeth ar ran yr adran gwasanaethau cymdeithasol, yn ddelfrydol, un person ddylai fod yn gyfrifol am yr holl denantiaid unwaith y maent wedi ymgartrefu.

Diben y trefniadau asesu a dyrannu integredig yw rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu tai i bobl a fydd yn elwa ar wasanaethau a chyfleusterau penodol cynllun Tai Gwarchod a Gofal. Bydd y sawl sy'n dyrannu tai am osgoi cael gormod o tenantiaid y bydd gofyn rhoi llawer iawn o ofal iddynt ond, serch hynny, bydd am sicrhau bod anghenion y tenantiaid, o'u rhoi at ei gilydd, yn cyfateb i, neu'n fwy na'r lefelau isaf o ofal sy'n gwneud y cynllun yn un hyfyw.

Defnyddir dull safonol er mwyn asesu'r angen am wasanaethau wrth ystyried dyrannu fflat ac wrth fonitro'r ddarpariaeth ar ôl hynny. Amgaeir manylion y dull hwn, sydd wedi'i ddatblygu gan Gyngor Bwrdeistref Dinesig Wolverhampton, yn Atodiad Un. Argymhellwyd ei fod yn cael ei ddefnyddio yn Swydd Gaerloyw.

Trefniadau gofal

Roedd y patrymau gwaith mewn tai gwarchod confensiynol a osododd y seiliau ar gyfer Tai Gwarchod a Gofal yn ymateb, i raddau helaeth, i'r trefniadau gwastraffus ar gyfer darparu gofal i denantiaid tai

gwarchod. Yn wyneb y ffaith fod asiantaethau gwahanol a gofalwyr unigol yn gofalu am anghenion tenantiaid gwahanol mewn ffordd nad oedd wedi'i chydgysylltu, bu galw am sefydlu timau bach o staff gofal a'u neilltuo i gynlluniau penodol ac i gynnal cysylltiad agos â Warden y cynllun . Mae neilltuo tîm o staff penodedig i ddarparu gwasanaethau yn un o ofynion sylfaenol Tai Gwarchod a Gofal. Mae'r arferion gorau yn dangos y bydd tîm o'r fath yn ymateb i anghenion a dymuniadau tenantiaid unigol, gyda'r nod o ddarparu lefel o ofal na fydd yn eu gwneud yn or-ddibynnol nac ychwaith yn gadael iddynt deimlo'n ddiymgeledd. Er mwyn mabwysiadu'r dull hwn o weithredu, mae angen bod yn sensitif iawn i anghenion ac amgylchiadau'r tenant. Er mwyn sicrhau hyblygrwydd o'r fath, mae angen i'r staff sy'n darparu'r gwasanaethau gael llawer o hyfforddiant, ynghyd â chefnogaeth gan reolwyr yn y fan a'r lle. Darperir gofal mewn Cynllun Tai Gwarchod a Gofal bedair awr ar hugain y dydd bob diwrnod o'r flwyddyn. Os nad oes angen gofal o'r fath ar denantiaid y cynllun, nid yw'n un Gwarchod a Gofal neu nid yw'r llety wedi'i ddyrannu'n briodol.

Trefniadau rheoli

Cyfeiriwyd uchod at y dulliau gwahanol a fabwysiedir gan ddarparwyr mawr wrth diffinio swyddogaeth rheolwr y cynllun. Mae rhai darparwyr yn gryf o'r farn mai dim ond pan fydd un person ar y safle sy'n gyfrifol am bob maes gwasanaeth, sef rheoli tai, arlwyo, darparu gofal, ac ati, y gellir sicrhau'r gost a'r budd mwyaf a gwasanaethau o'r radd flaenaf. Yn gyffredinol, mae'r sawl sydd o blaid y patrwm hwn yn dadlau dros sicrhau bod tenantiaid yn cael cymorth gan un aelod o staff sy'n darparu amryfal wasanaethau integredig, sef gofal personol, cymorth yn y cartref, cyswllt cymdeithasol. Byddai rhai hefyd yn dadlau dros integreiddio cyfrifoldebau'r rheolwyr uwchlaw lefel y cynllun lleol.

Mae darparwyr eraill yn ffafrio patrwm lle mae'r swyddogaethau'n cael eu gwahaniaethu ar bob lefel. Mae gan reolwr y cynllun swyddogaethau o ran rheoli'r tai ond nid oes ganddo gyfrifoldeb ffurfiol dros ddarparu'r gofal. Contractwyr allanol fydd yn gyfrifol am agweddau eraill ar y gwasanaeth, megis arlwyo a glanhau, ac efallai mai'r rheolwr fydd â'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod darparwyr y gwasanaethau hyn yn cydymffurfio â'r contract. Amryfal asiantantaethau fydd yn darparu'r gwasanaethau, a bydd gan bob asiantaeth strwythurau rheoli a chymorth. Trafodir yr anawsterau a all godi pan na chaiff y gwahaniaeth rhwng y swyddogaethau ei ddeall yn glir yn yr astudiaeth gan Greenwood a Smith ar gyfer Grwp Tai Hanover. Yn ôl yr astudiaeth, roedd yr arferion ymhlith rheolwyr cynlluniau Grwp Tai Hanover yn amrywio, ac nid oedd modd i'r rhan fwyaf ohonynt osgoi cymryd rhywfaint o ran mewn materion gofal, petai ond i roi gwybodaeth i staff y darparwr gofal.

Mae'r trefniadau yn Swydd Gaerloyw ar gyfer comisiynu contractau er mwyn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael eu hariannu gan y gwasanaethau cymdeithasol yn awgrymu mai asiantaethau gwahanol a fydd, fel arfer, yn darparu cyfleusterau tai a gwasanaethau gofal. Yr hyn fyddai orau fyddai sicrhau bod gan reolwr y cynllun a gyflogir gan y darparwr tai ran uniongyrchol a chydnabyddedig yn y prosesau a ganlyn: asesu a dyrannu, pwyso a mesur anghenion gofal yn rheolaidd ac addasu'r cynlluniau gofal yn sgil hynny, ynghyd â phennu rhaglenni gwaith y staff gofal.

Bydd angen hyfforddiant ar reolwr y cynllun, o ystyried natur aml-asiantaethol ac amlddisgyblaethol y

swyddogaeth. Bydd angen hyfforddiant hefyd ar bob aelod o staff ac ar y sawl sy'n eu rheoli o safbwynt eu swyddogaethau eu hunain ac o ran deall swyddogaethau'r bobl y maent yn cydweithio â hwy.

Rhoi'r athroniaeth ar waith

Mae gwerthoedd ac athroniaeth y darparwyr yn un o'r elfennau hanfodol os ydym am greu Tai Gwarchod a Gofal go iawn. Drwy fabwysiadu dull integredig o ddiwallu anghenion y tenantiaid mewn ffordd gyfannol, rhoddir mwy o hyblygrwydd i'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r tenantiaid. Dylai hyn ganiatáu iddynt gyfuno cymorth ymarferol â chymorth emosiynol a chyswllt cymdeithasol.

Dylid disgwyl i ddarparwyr ddangos ymrwymiad at alluogi tenantiaid, at ymwrthod â darparu gormod o wasanaethau a fydd yn arwain at ddibyniaeth, ac ymrwymiad at ddatblygiad personol tenantiaid. Bydd angen iddynt ddangos hyn nid yn unig drwy eu gwerthoedd a'u hathroniaeth, ond hefyd drwy'r cyfleusterau ymarferol a gynigir ganddynt, y swyddogaethau y bydd y staff yn eu cyflawni, y disgwyliadau y bydd gan y sefydliad ohonynt a'r canlyniadau y maent yn fodlon cael eu mesur yn eu herbyn.

Yr amgylchedd ffisegol

Yn rhy aml, diffinnir Tai Gwarchod a Gofal yn y lle cyntaf drwy gyfeirio at y cyfleusterau ychwanegol y maent yn eu darparu. Yn fynych, mae hyn yn tueddu i anwybyddu'r angen i'r adeilad cyfan gynorthwyo pobl i fod yn annibynnol. Dim ond drwy fodloni safonau uchel o ran hygyrchedd yn y mannau cyffredin ac yn y fflatiau unigol y gellir gwneud hyn. Mae'r egwyddorion o ran dylunio wedi'u cofnodi'n llawn yn hyn o beth. Efallai na fydd bob amser yn hawdd bodloni safonau o ran gofod a hygyrchedd wrth addasu cynlluniau sydd eisoes yn bodoli. Dim ond rhan o'r ateb yw sicrhau bod mannau cyffredin yn hygyrch. Os yw cynllun am gael ei ystyried yn gynllun Tai Gwarchod a Gofal go iawn, mae angen iddo gynnwys anheddau unigol sydd hefyd yn bodloni safonau cyfoes o ran gofod a chynllun mewnol. Ceir canllawiau manwl ar waith addasu o'r fath yn Trotter a Phillips.

Mae'r farn gyfredol ynghylch darparu cyfleusterau arbenigol yn amrywio. Byddai rhai'n ystyried ei bod yn hanfodol darparu cyfleusterau ar gyfer helpu tenantiad i gael bath, ystafelloedd triniaethau, golchfeydd ac ati, tra byddai eraill am ddiwallu cynifer o'r anghenion hyn â phosibl drwy wella'r cyfleusterau yn y fflatiau unigol. Ceir cytundeb barn o ran darparu cyfleusterau bwyta, swyddfeydd ac ystafelloedd ar gyfer y staff.

O ran dylunio yn gyffredinol, mae nifer fawr o bobl yn derbyn yr egwyddorion o breifatrwydd cynyddol (progressive privacy) y mae Trotter yn eu harddel. Dylai pob cynllun sy'n cael ei adeiladu o'r newydd a, lle y bo'n ymarferol, cynlluniau lle'r addaswyd adeiladau, geisio dangos hyn. Mae hyn yn arbennig o

bwysig pryd y mae rhai o'r cyfleusterau, sef y cyfleusterau bwyta a'r rhai ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a hamdden, yn cael eu rhannu â phobl o'r gymuned o'u cwmpas.

Nid yw pawb yn rhoi'r un pwys ar gyfleusterau ar gyfer gweithgareddau hamdden, gweithgareddau cymdeithasol ac addysgiadol, ond dylai darparu cyfleusterau o'r fath a bod yn glir ynghylch sut mae mynd ati i'w defnyddio fod yn un o ofynion pob cynllun Tai Gwarchod a Gofal. Mae cyfleusterau ar gyfer crochenwaith a chrefft a sicrhau bod cyfrifiaduron sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd ar gael yn enghreifftiau o'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd ac maent yn dangos ymrwymiad i ddysgu gydol oes.

Yn y pen draw, ni fydd diben cael yr holl nodweddion dylunio hyn oni fydd y darparwr yn gallu dangos yn glir pam ei fod wedi'u darparu a sut y gall sicrhau y cânt eu defnyddio'n effeithiol. Ni fydd cynnwys y cyfleusterau hyn dim ond am eu bod wedi'u cynnwys yn y canllawiau dylunio yn ddigon.

Ariannu

Honnir mai un o'r manteision sydd gan Dai Gwarchod a Gofal o'u cymharu â gofal preswyl yw bod gan y tenant fwy o incwm i'w wario. Dylai'r trefniadau ariannu fod yn deg i'r tenant heb i denantiaid sy'n ariannu eu hunain orfod talu mwy. Felly, ni fydd cynllun nad yw'n ymarferol heb orfod codi rhent uchel neu heb ychwanegu nifer o daliadau eraill yn deg i'r tenantiaid hynny nad ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau.

Rhaid i'r cynllun hefyd roi gwerth am arian i'r rheini sy'n ariannu'r gwasanaethau o'i gymharu â gwasanaethau eraill a ddarperir ar gyfer yr un unigolyn. Mae dyrannu tai mewn ffordd briodol ac ymateb yn hyblyg i anghenion gofal sy'n newid yn allweddol i'r sefyllfa hon. Mae rhai darparwyr yn dadlau bod rhywfaint o anghydbwysedd ariannol yn anorfod yn ystod blynyddoedd cyntaf cynllun, yn enwedig pan fo'r tenantiaid gwreiddiol yn parhau i fyw mewn cynllun sydd wedi'i ddynodi bellach yn gynllun Tai Gwarchod a Gofal. Maent hefyd yn dadlau y bydd y costau ar gyfer unigolyn penodol yn fwy na'r hyn y byddai'n ei gostio i'w gynnal yn ei gartref ei hunan neu hyd yn oed mewn gofal preswyl os ycym am gyflawni'r amcanion a nodir yma. Eu dadl hwy yw y dylid ystyried y boblogaeth gyfan o denantiaid dros gyfnod o amser. Mae'r ddadl hon yn tueddu i ffafrio un safbwynt, ond er hynny, mae'n deg cydnabod mai dyma fydd y sefyllfa yn ystod y tair neu bedair blynedd gyntaf ar ôl i gynllun gael ei ail-ddynodi (yn ôl cyfartaledd y cyfraddau adnewyddu, bydd hyn yn caniatáu i draean neu fwy o fflatiau gael eu dyrannu i'r bobl hynny y bydd cyfleusterau'r cynllun yn briodol i'w hanghenion gofal) neu ddeunaw mis neu ddwy flynedd ar ôl i gynllun newydd gael ei sefydlu.

Nigel J W Appleton

© Contact Consulting 2004